OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2005 Rhif 700 (Cy.59) (C.30)

# GOFAL CYMDEITHASOL, CYMRU
# PLANT A PHOBL IFANC, CYMRU

## Gorchymyn Deddf Plant 2004 (Cychwyn Rhif 2) 2005

*Wedi'i wneud - - 15 Mawrth 2005*

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddo gan adran 67(6) o Ddeddf Plant 2004(**1**), gyda chydsyniad yr Ysgrifennydd Gwladol, drwy hyn yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn—

**Enwi, dehongli a chymhwyso**

**1.**—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Deddf Plant 2004 (Cychwyn Rhif 2) 2005.

(2) Yn y Gorchymyn hwn, ystyr "y Ddeddf" yw Deddf Plant 2004.

**Y Diwrnod Penodedig**

**2.**—(1) 16 Mawrth 2005 yw'r diwrnod penodedig ar gyfer dod ag adrannau 42 a 43 o'r Ddeddf i rym.

(2) 1 Ebrill 2005 yw'r diwrnod penodedig ar gyfer dod ag adrannau 35, 36, 37, 38, 39, 40 a 41 o'r Ddeddf i rym.

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(**2**).

*D. Elis-Thomas*
Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol

15 Mawrth 2005

(**1**) 2004 p.31.
(**2**) 1998 p.38.

## EXPLANATORY NOTE

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Y Gorchymyn hwn yw'r ail Orchymyn cychwyn a wnaed o dan Ddeddf Plant 2004 ("y Ddeddf").

Mae'r Gorchymyn hwn yn dod ag adrannau 35 i 43 o'r Ddeddf, ac Atodlen 3 iddi, sy'n ymwneud â swyddogaethau CAFCASS yng Nghymru a Lloegr, i rym. Daw adrannau 42 a 43 sy'n ymwneud â throsglwyddo eiddo a staff i rym ar 16 Mawrth 2005 a daw adrannau 35 i 41 ac Atodlen 3 i rym ar 1 Ebrill 2005.

## NOTE AS TO EARLIER COMMENCEMENT ORDERS

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Mae darpariaethau Deddf Plant 2004 y cyfeirir atynt yn y tabl isod wedi'u dwyn i rym o ran Lloegr ar y dyddiad a bennir wrth ymyl O.S. 2005/394 C.18, ac eithrio pan fo cofnod yn dangos bod darpariaeth wedi'i dwyn i rym o ran Cymru a Lloegr.

| *Darpariaeth* | *Dyddiad Cychwyn* |
|---|---|
| Adran 10 | 1 Ebrill 2005 |
| Adran 11(yn rhannol) | 1 Mawrth 2005 |
| Adran 11 (y gweddill) | 1 Hydref 2005 |
| Adran 13(yn rhannol) | 1 Mawrth 2005 |
| Adran 14 (yn rhannol) | 1 Mawrth 2005 |
| Adran 16 (yn rhannol) | 1 Mawrth 2005 |
| Adran 17 | 1 Mawrth 2005 |
| Adran 18 | 1 Ebrill 2005 |
| Adran 20 | 1 Mawrth 2005 |
| Adran 21 | 1 Mawrth 2005 |
| Adran 22 | 1 Mawrth 2005 |
| Adran 23 | 1 Mawrth 2005 |
| Adran 24 | 1 Ebrill 2005 |
| Adran 44 (yn rhannol) | 1 Ebrill 2005 |
| Adran 44 (y gweddill) | 1 Gorffennaf |
| Adran 48 (yn rhannol) a pharagraffau 1, 2, 5 a 7 o Atodlen 4 | 1 Mawrth 2005 |
| Adran 50 | 1 Mawrth 2005 |
| Adran 51 (yn rhannol) | 1 Ebrill 2005 |
| Adran 52 | 1 Gorffennaf |

| *Darpariaeth* | *Dyddiad Cychwyn* |
|---|---|
| Adran 53 | 1 Mawrth 2005 |
| Adran 54 | 1 Mawrth 2005 |
| Adran 55 | 1 Ebrill 2005 |
| Adran 57 | 1 Mawrth 2005 |
| Adran 60 o ran Cymru a Lloegr | 1 Mawrth 2005 |
| Rhan 1 o Atodlen 5 | 1 Mawrth 2005 |
| Rhan 2 o Atodlen 5 (yn rhannol) | 1 Mawrth 2005 |
| Rhannau 3 a 4 o Atodlen 5 | 1 Ebrill 2005 |